CYNLLUN AC ASESIAD GWASTRAFF RHANBARTHOL DE ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

NODIADAU O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR ORFFENNAF 9FED 2003 AM 1.30 PM YNG NGHANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT

Presennol

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Mike Jones	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	SLR Consulting Cyf.
Steve Bool	CBS Pen-y-Bont ar Ogwr
Huw Jenkins	CBS Pen-y-Bont ar Ogwr
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Peter Kendall	Cyngor Sir Caerfyrddin
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe
Philip Marks	CYLCH
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro/Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Andy Rees	Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. **Ymddiheuriadau**

Cathy O'Brien	Uned Strategaeth ar Wastraff (LlCC)
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Nick Oates	Cyngor Sir Ceredigion

2. **Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 13eg**

Newidiadau i eitem 3 Ymgynghoriad:
Paragraff 1af, dylai'r ail linell ddweud: "...ar gostau tebyg yr ***ymgynghoriad..***"
2il baragraff, dylai'r llinell gyntaf ddweud: " cytunwyd y byddai'r ***AA*** hwyluso..."
2il baragraff, dylai'r bumed linell ddweud: "...ag ymgynghoriad yn y ***cynllun*** rhanbarthol."

Doedd dim materion yn codi

Nesaf, cymerwyd eitem 4 o'r agenda.

4. **Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Rhoddodd GW adroddiad ar y trafodaethau manwl a oedd wedi cael eu cynnal rhwng CBS Castell-nedd Port Talbot a CBS Caerffili yn y Cyd-Grŵp Llywio Ymgynghorol. Nodwyd/cytunwyd y prif bwyntiau canlynol.

- Mae lawnsiad yr Ymgynghoriad ar Strategaeth Wastraff Ranbarthol De Ddwyreiniol a De Orllewinol wedi cael ei drefnu ar gyfer Dydd Llun, Gorffennaf 28ain 2003 lle bydd Carwyn Jones gweinidog AC yr Amgylchedd ynghyd â chadeirydd pob un o'r fforymau yn bresennol. Mynegodd y grŵp gefnogaeth gyffredinol i'r lawnsiad. **Gweithredu:** GW i gysylltu â'r Cynghorydd Pam Palmer;
- Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg (holiadur post a grwpiau ffocws) sydd i'w weithredu gan gwmni ymchwil marchnata a thrwy gynhyrchu posteri, pamffledi ac arddangosfeydd;
- Cadarnhaodd GW y byddai cost tybiedig yr ymgynghoriad o fewn y gyllideb sydd ar gael ac oherwydd hynny ni fydd angen i awdurdodau eraill gyfrannu yn ychwanegol;
- Gofynnir am gadarnhad o'r man cyswllt sengl ar gyfer pob awdurdod ac o'r nifer o arddangosfeydd sydd angen erbyn Dydd Gwener Gorffennaf 18fed. **Gweithredu:** Pawb; a
- Bydd y deunydd cyhoeddusrwydd generig – posteri, pamffledi ac arddangosfeydd – yn ddwyieithog. Bydd yr arolwg post yn cynnwys llythyr cyffredinol dwyieithog yn unig, ond bydd fersiwn Cymraeg ar gael ar gais.

Soniodd GW hefyd am y nifer cyfyngedig o ymatebion a dderbyniwyd ar ôl cam cyntaf Ymgynghoriad Rhanddeiliaid i'r Gwerthusiad Cynaladwyedd :

- Cylch – Argymhelliad: Opsiwn 6;
- AA Cymru (Rhanbarth De Orllewin Cymru) – Argymhelliad: Cyfuniad o opsiynau 2 & 6;
- AA Cymru (Grŵp yr Amgylchedd Rhanbarth De Orllewin Cymru) - Argymhelliad: Cyfuniad o opsiynau 2 & 6;
- Julie James (Yn cynrychioli'r cyhoedd - Grŵp yr Amgylchedd Rhanbarth De Orllewin Cymru) – opsiwn 4;
- CBS Castell-nedd Port Talbot – Adroddiad i'r Cabinet – Argymhelliad: Cyfuniad o opsiynau 2 & 6.

3. **Cynllun Drafft Rhanbarthol ar gyfer Gwastraff**

Ymddiheurodd AF i'r grŵp am nad oedd wedi dosbarthu fersiwn drafft llawn o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol cyn y cyfarfod yn ôl y bwriad ac fe amlinellodd yr hyn oedd wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Dilynwyd gan drafodaeth a nodwyd/cytunwyd y pwyntiau canlynol.

- Oherwydd y terfynau amser llym mae angen derbyn pob sylw cychwynnol ar y Cynllun Drafft erbyn amser cinio ar Ddydd Llun Gorffennaf 14eg;
- Mae'r Fforwm aelodau, a oedd ar yr amserlen ar gyfer Dydd Llun Gorffennaf 21ain, wedi'i ohirio fel bod y grŵp technegol yn gallu cwrdd eto. Mae'r

Fforwm Aelodau i'w gynnal ar Ddydd Gwener Awst 8fed. **Gweithredu:** GW i gysylltu â'r Cynghorydd Pam Palmer;

- Mae angen diweddaru'r data ym mhennod 4. **Gweithredu:** AF;
- Mae angen map sy'n dangos cyfleusterau cyfredol. **Gweithredu:** AF
- Adran 5.2 (Opsiynau) – Mae angen dangos yn y testun bod rhaid cyfeirio at ffigur 5.1 er mwyn gwahaniaethu rhwng pob un o'r opsiynau. **Gweithredu:** AF;
- Mae rhaid i'r Cynllun Drafft gyfeirio at wastraff peryglus ac mae rhaid iddo cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar iechyd. **Gweithredu:** AF.

5. **Dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol**

Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol yn cael ei gynnal am 10 a.m. ar Ddydd Llun Gorffennaf 21ain yng Nghanolfan Ddinesig Penllergaer.

6. **Unrhyw Faterion Eraill**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.